**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-RE-1070-23

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

26 Ebrill 2023

Annwyl Peredur,

Diolch am waith craffu'ch Pwyllgor ar Ail Gyllideb Atodol 2022-23 a'r adroddiad dilynol.

Atodaf ymateb ysgrifenedig i'r argymhellion a wnaed. Gobeithiaf y bydd yr ymateb yn ddefnyddiol ichi.

Yn gywir,

Rebecca Evans

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

**YMATEB LLYWODRAETH CYMRU I'R ARGYMHELLION YN ADRODDIAD Y PWYLLGOR CYLLID:**

**CRAFFU AR AIL GYLLIDEB ATODOL LLYWODRAETH CYMRU 2022-23**

**EBRILL 2023**

---

**Argymhelliad 1**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu gwybodaeth am y balans yn ystod y flwyddyn yng Nghronfa Wrth Gefn Cymru fel rhan o'r ddogfennaeth sy'n cyd-fynd â'r holl gynigion cyllidebol a gyflwynir gerbron y Senedd yn y dyfodol.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae holl gyllidebau Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth am y defnydd o Gronfa Wrth Gefn Cymru.

---

**Argymhelliad 2**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn darparu manylion unrhyw ddyraniadau munud olaf sylweddol a wnaed rhwng nawr a diwedd y flwyddyn ariannol o ganlyniad i gytundeb ar ddyfarniadau cyflog y sector cyhoeddus – neu am unrhyw reswm arall – ac i wybodaeth o'r fath gael ei darparu cyn i Gyllideb Atodol Gyntaf 2023-24 gael ei gosod.**

**Ymateb: Derbyn**

Ni wnaed unrhyw ddyraniadau sylweddol ar ôl yr ail gyllideb atodol. Mae cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi i gefnogi'r costau sy'n gysylltiedig â'r cynnig cyflog uwch ar gyfer y GIG a gynigiwyd ar 20 Ebrill. Bydd rhagor o fanylion yn cael eu darparu pan fydd canlyniad pleidleisiau aelodau o undebau llafur yn hysbys.

---

**Argymhelliad 3**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn parhau yn ei hymdrechion i berswadio Llywodraeth y DU i gynyddu maint Cronfa Wrth Gefn Cymru a'r terfynau benthyca – fel eu bod yn unol â chwyddiant, o leiaf – gyda'r nod o ddarparu digon o hyblygrwydd, yn debyg i'r hyn a ganiatawyd ar gyfer awdurdodau lleol, i ganiatáu**

**rheolaeth ddarbodus o’r gyllideb o un flwyddyn ariannol i'r nesaf, er mwyn gwneud y mwyaf o'r cyllid sydd ar gael i Lywodraeth Cymru.**

**Ymateb: Derbyn**

Fel y nodwyd yn ein hymateb i adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar Graffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24, mae’r ysgogiadau cyllidol sydd ar gael ar hyn o bryd i Lywodraeth Cymru yn cyfyngu ar ein gallu i ymateb yn gyflym i anghenion sy’n dod i’r amlwg, gan ein gadael yn ddibynnol ar benderfyniadau a wneir gan Lywodraeth y DU ac yn agored i effaith amseru’r penderfyniadau hynny. Mae’r Sefydliad Astudiaethau Cyllid o’r blaen wedi amlygu’r achos dros bwerau wrth gefn cryfach yng Nghymru ac i derfynau tynnu i lawr gael eu cynyddu, os nad eu diddymu. Barn y Sefydliad Astudiaethau Cyllid yw y dylai’r terfynau presennol ar y cyfanswm y gellir ei ddal wrth gefn o leiaf fod wedi’i fynegeio ryw ffordd i wneud cyfrif am dwf mewn gwariant datganoledig a refeniw trethi.

Yn ei Adroddiad Interim, nododd y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru fod y broblem ariannol ymarferol fwyaf uniongyrchol yn deillio o’r cyfyngiadau a roddir ar waith gan Drysorlys EF ar y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn rheoli ei chyllideb. Nododd fod gallu Llywodraeth Cymru i gael benthyg at ddibenion buddsoddiad cyfalaf, ac i drosglwyddo gwariant cyfalaf rhwng blynyddoedd ariannol, wedi’i gyfyngu gan derfynau a osodwyd yn 2016-17; rhaid i unrhyw geisiadau am hyblygrwydd gael eu cyflwyno i Drysorlys EF fesul achos, sy’n cymryd amser ac yn dreth ar adnoddau. Dywedodd hefyd ei bod yn anodd gweld pam mae angen y terfynau hyn, wrth ystyried bod Llywodraeth Cymru yn atebol i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Senedd Cymru am ei stiwardiaeth o wariant cyhoeddus.

Ers tro, mae Gweinidogion Llywodraeth Cymru wedi bod yn gwneud sylwadau i Lywodraeth y DU dros hyblygrwydd cyllidol ychwanegol yma yng Nghymru. Gwnaeth Prif Weinidog Cymru sôn yn benodol am uwchraddio’r terfynau yn y fframwaith cyllidol yng nghyfarfod Cyngor y Prif Weinidog a Phenaethiaid y Llywodraethau Datganoledig hydref y llynedd. Rydym yn parhau i bwyso ar Lywodraeth y DU am hyblygrwydd cyllidol ychwanegol, drwy’r sianeli priodol, gan gynnwys y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid (F:ISC), a thrwy gyfarfodydd dwyochrog â Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys.

---

**Argymhelliad 4**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi rheolaethau ar waith i sicrhau bod ei phartneriaid cyflawni yn cael cymaint o eglurder â phosibl ynghylch eu sefyllfa ariannol o'r naill flwyddyn i'r llall, o ystyried bod effaith unrhyw oblygiadau ariannol sy'n deillio o ddyfarniadau cyflog allweddol dal i fod yn anhysbys.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth gyda'i phartneriaid cyflawni ac mae'n defnyddio dulliau helaeth ac amrywiol i sicrhau bod gan bartneriaid cyflawni eglurder ynghylch eu sefyllfaoedd ariannol. Pan fo'n briodol, mae rhagdybiaethau cynllunio'n cael eu darparu a'u diweddaru fel y bo angen.

Ein dyhead bob tro yw darparu cyllidebau tymor hwy ar gyfer ein partneriaid a'n rhanddeiliaid pan fo'n bosibl, ond un ffactor arwyddocaol ar gyfer gosod cyllidebau amlflwyddyn yw ffrâm amser ein setliad cyllidebol ni. Yn 2021, darparodd Llywodraeth y DU setliad amlflwyddyn ar gyfer Cymru a gwnaethom ninnau ddarparu'r sicrwydd hwnnw i'n rhanddeiliaid, gan ddarparu dyraniadau cyllido hyd at 2025.

Mae manylion unrhyw newidiadau i'n setliadau, positif neu negatif, yn cael eu darparu ar y cyfle cyntaf er mwyn rhoi cymaint o sicrwydd â phosibl i'n partneriaid a'n rhanddeiliaid. Yn yr ysbryd hwnnw, fel Llywodraeth, rydym wedi ymrwymo i gyhoeddi ein Cyllideb Ddrafft o fewn pedair wythnos i ddigwyddiad cyllidol Llywodraeth y DU er mwyn darparu'r sicrwydd hwnnw pan fo'n bosibl.

Rydym hefyd yn cydnabod bod gan awdurdodau lleol ofyniad statudol i osod eu cyllidebau cyn 11 Mawrth bob blwyddyn ac felly o'r farn y dylid cytuno ar Gyllideb Flynyddol Llywodraeth Cymru cyn 11 Mawrth. Rydym yn parhau i ymgysylltu'n agos ag awdurdodau lleol i sicrhau ein bod yn cyflawni'r ymrwymiad hwn.

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai pob gweithiwr sector cyhoeddus gael tâl teg am eu gwaith pwysig. Yn wahanol i Lywodraeth y DU, rydym ni wedi cynnal trafodaethau dwys a gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol i ddod o hyd i ddatrysiad.

Yn anffodus, mae ein setliad ariannol yn syrthio'n brin o'r hyn sydd ei angen yn sgil yr heriau sylweddol iawn sy'n wynebu ein gwasanaethau cyhoeddus a'n gweithwyr ledled Cymru.

Rydym yn galw ar Lywodraeth y DU i fuddsoddi mewn gwasanaethau cyhoeddus a staff sector cyhoeddus, a rhannu gwybodaeth ynghylch goblygiadau unrhyw gynnig cyflog yn dryloyw ac yn brydlon er mwyn llywio prosesau cyllidebol.

Mae ein gallu i ddarparu sicrwydd i'n partneriaid wedi'i gyfyngu yn absenoldeb yr wybodaeth honno a'r cyllid hwnnw, ond rydym yn parhau i ymgysylltu'n adeiladol ag undebau llafur ynghylch y mater hollbwysig hwn.

O ran dyfarniadau cyflogau'r GIG, gwnaeth llythyrau dyrannu Byrddau Iechyd ar gyfer 2023-24, a ddyroddwyd fis Rhagfyr 2022, nodi y byddem yn cwrdd ag effaith dyfarniadau cyflogau'r GIG ar wahân, unwaith yr oedd dyfarniadau wedi'u penderfynu.

---

**Argymhelliad 5**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell fel a ganlyn:**

**▪ Bod mesurau'n cael eu cymryd gan Lywodraeth Cymru i sicrhau nad yw pob bwrdd iechyd lleol yng Nghymru yn mynd y tu hwnt i'w gyllid dros y cyfnodau treigl o dair blynedd, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2014; a**

**▪ lle mae Byrddau Iechyd Lleol yn gorwario mewn un flwyddyn, dylai'r rhain gael eu hariannu o gyllideb bresennol yr adran iechyd a gwasanaethau cymdeithaso.**

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mae Deddf Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2014 yn cynnwys y cyfrifoldeb i bob Bwrdd Iechyd Lleol adennill costau dros gyfnod cyfrifyddu o dair blynedd a pharatoi cynlluniau i wneud hynny. Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'i swyddogion yn monitro perfformiad yn rheolaidd o ran y ddyletswydd hon ac yn gweithredu mesurau uwchgyfeirio pan fo angen. Mae cyfrifon wedi'u harchwilio pob corff yn cynnwys adrodd am berfformiad o ran y cyfrifoldeb hwn.

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl bod pob Prif Grŵp Gwariant, pan fo'n bosibl, yn cwrdd ag unrhyw bwysau ariannol sy'n codi yn y flwyddyn, yn y lle cyntaf, o'u cyllidebau presennol. Pan nad yw hyn yn bosibl, neu pan wneir diwygiadau eraill i gyllidebau, byddwn yn cyhoeddi newidiadau yn unol â'n proses y cytunwyd arni ar gyfer cyllidebau atodol.

---

**Argymhelliad 6**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i sicrhau bod gan awdurdodau lleol ddigon o adnoddau i'w galluogi i ddarparu cymorth i'r rheini sy'n ffoi rhag y rhyfel yn Wcráin, waeth beth fo'r newidiadau i gyllid gan Lywodraeth y DU, a hefyd bod cymorth cyson yn cael ei ddarparu ar draws awdurdodau lleol Cymru.**

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Gan gydnabod yr heriau sy'n wynebu awdurdodau lleol, ceisiodd penderfyniadau Llywodraeth Cymru yn y Gyllideb Derfynol dargedu cymaint o gymorth â phosibl i iechyd a llywodraeth leol i leddfu pwysau ar wasanaethau rheng flaen a pharhau i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn effeithiol. Yn setliad 2023-24, ceir cynnydd o £227 miliwn i'r dyraniadau dangosol ar gyfer 2023-24 a gyhoeddwyd yng Nghyllideb Derfynol 2022-23 a'r adolygiad gwariant amlflwyddyn, gan ddarparu cyllid refeniw ychwanegol ar gyfer gwasanaethau lleol hanfodol a gwerthfawr megis blaenoriaethu ysgolion a gofal cymdeithasol. Dylai hyn sicrhau bod gan awdurdodau lleol adnoddau digonol i gyflawni eu rhwymedigaethau statudol.

Mae Llywodraeth y DU wedi darparu tariff integreiddio mewn perthynas â phob unigolyn sy'n ffoi o Wcráin drwy'r cynllun dyngarwch ar gyfer eu blwyddyn gyntaf ar ôl cyrraedd. Cyn mis Ionawr 2023, roedd y tariff hwn yn £10,500 y pen, gan ostwng i £5,900 y pen o fis Ionawr 2023 ymlaen. Mae tariffau addysg hefyd wedi bod yn daladwy yn y flwyddyn gyntaf ar ôl cyrraedd ar gyfer pobl ifanc 2-18 mlwydd oed. Nid yw Llywodraeth y DU wedi talu tariff integreiddio na thariff addysg ar gyfer y rhai sy'n cyrraedd drwy'r llwybr teulu. Nid oes tariff integreiddio na thariff addysg ar gael gan Lywodraeth y DU ar gyfer yr ail flwyddyn ar ôl cyrraedd. Mae hyn yn groes i gynlluniau adsefydlu eraill Llywodraeth y DU lle mae cyllid yn gyffredinol ar gael yn yr ail a'r drydedd flwyddyn.

Caiff tariffau addysg eu pasbortio'n uniongyrchol i awdurdodau lleol lle mae pobl ifanc wedi'u cofrestru ar gyfer ysgol. Mae tariffau integreiddio ar gyfer y rhai sy'n cyrraedd drwy'r llwybr unigolyn hefyd yn cael eu talu'n uniongyrchol i awdurdodau lleol yn seiliedig ar ardal breswylio'r unigolion hynny. Pan fydd unigolion yn cyrraedd drwy'r cynllun uwch-noddwr, mae cyfran o'r tariff integreiddio'n cael ei chadw gan Lywodraeth Cymru i adlewyrchu'r gyfran o amser y mae'r unigolion hyn mewn canolfannau croeso neu lety cychwynnol arall. Defnyddir y cyllid hwn i wrthbwyso'n rhannol ein costau o ran bwyd a llety a darparu cyllid cymorth cofleidiol i awdurdodau lleol. Pan fydd unigolion yn symud ymlaen o lety cychwynnol, mae'r gyfran pro rata o'r tariff integreiddio ar gael i awdurdodau lleol yn seiliedig ar ardal breswylio'r sawl sydd wedi cyrraedd o Wcráin.

O dan ein trefniadau presennol, gall pob awdurdod lleol ôl-hawlio eu cyfran o'r tariffau yn seiliedig ar nifer y gwesteion o Wcráin yn eu hardaloedd. Mae hyn yn cynnig sail gyson ar gyfer darparu cymorth, un sy'n deg ac yn adlewyrchu'r nifer gwahanol o westeion mewn lleoliadau gwahanol. Byddwn yn parhau i sicrhau dull gweithredu cyson ar gyfer pob awdurdod lleol a sicrhau bod pob un yn gallu cael at gymorth ar yr un sail.

Yn absenoldeb tariffau integreiddio ac addysg ar gyfer yr ail flwyddyn, ni allwn gynnig yr un lefel o gyllid i awdurdodau lleol o'n hadnoddau ein hunain gan na fyddant yn estyn mor bell â hynny, yn anffodus.

Er bod Llywodraeth y DU wedi lleihau'r cyllid sydd ar gael i awdurdodau lleol i lefelau llawer is na'r hyn y gellir ei liniaru, rydym yn benderfynol o gefnogi cynghorau fel y gallant helpu pawb sydd angen cartref yng Nghymru. Rydym wedi ymrwymo o hyd i gefnogi ein gwesteion o Wcráin a byddwn yn parhau i gwrdd â chostau llety cychwynnol y rhai sy'n cyrraedd drwy'r llwybr uwch-noddwr yn ogystal â chostau cysylltiedig â'u gofal cofleidiol. Bydd y cymorth hwn yn cael ei ariannu o'r gyllideb £40 miliwn sydd ar gael yn 2023-24. Mae gennym hefyd gyllid wedi'i neilltuo i gynnig cymorth i awdurdodau lleol, er y bydd ar lefel is na'r hyn sydd ar gael yn bresennol drwy dariffau Llywodraeth y DU. Yn gryno, mae ein pecyn cyllido 2023-24 yn cynnwys:

- llety cychwynnol a gwasanaethau cofleidiol i'r rhai sydd newydd gyrraedd a'r rhai sydd eisoes wedi cyrraedd o dan gynllun uwch-noddwr Llywodraeth Cymru.

- cynyddu’r taliad diolch i bawb sy’n lletya rhywun o £350 i £500 y mis yn ystod eu blwyddyn gyntaf o letya rhywun. Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi’n ddiweddar y bydd yn cynyddu’r taliad diolch yn yr ail flwyddyn i £500 o fis Ebrill 2023 ymlaen.
- cyllid ychwanegol i awdurdodau lleol i’w galluogi i helpu gwesteion o Wcráin i symud ymlaen i lety tymor hwy.
- cronfa ddewisol i gefnogi awdurdodau lleol gyda heriau lleol, penodol.

Ein nod yw bod y cyllid hwn yn sicrhau cysondeb o ran darparu gwasanaethau ym mhob awdurdod lleol, gan deilwra pan fo angen yn ôl amgylchiadau lleol (ee defnyddio’r gronfa ddewisol). Serch hynny, nid yw hyn yn atal awdurdodau lleol rhag darparu cymorth mwy hael i bobl o Wcráin o’u cyllidebau eu hunain os ydynt yn dewis gwneud hynny.

---

**Argymhelliad 7**

**Mae’r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn parhau yn ei hymdrechion i sicrhau bod lefelau digonol o gyllid yn cael eu darparu gan Lywodraeth y DU i gefnogi’r ymateb dyngarol o ganlyniad i’r rhyfel yn Wcráin.**

**Ymateb: Derbyn**

O ran cyllid i gefnogi’r ymateb dyngarol o ganlyniad i’r rhyfel yn Wcráin, rydym wedi codi’r mater droeon gyda Llywodraeth y DU, mewn cyfarfodydd dwyochrog â’r naill Brif Ysgrifennydd y Trysorlys ar ôl y llall, drwy F:ISC, ac mewn gohebiaeth â Changhellor y Trysorlys.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi pwyso ar y Canghellor a’r Prif Ysgrifennydd am gydraddoldeb â chynlluniau adsefydlu eraill, am fwy o sicrwydd ynghylch cyllid yn y dyfodol ac am daliadau tariff uwch a pharhaus, yn ogystal â phwyso ar Lywodraeth y DU i gymryd camau eraill i helpu gyda lletya ac ailgartrefu, gan gynnwys cynyddu’r Lwfans Tai Lleol.

Gwnaethom hefyd bwyso am eglurder ynghylch Cronfa Atal Digartrefedd Llywodraeth y DU i ddeall y swm a’r cafeatau ar gyfer Cymru, ac ysgrifennu ar y cyd â’r Cynghorydd Andrew Morgan, arweinydd Cymdeithas Llywodraeth leol Cymru, at y Gwir Anrh. Michael Gove AS Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau a’r Gweinidog Cysylltiadau Rhynglywodraethol a Felicity Buchan AS Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol ynghylch y mater hwn. Rydym yn disgwyl ymateb yn fuan.